RHONDDA CYNON TAF

**Diweddariad Pwysig**

**Ceisiadau Ar-lein ar gyfer lle mewn Clwb Brecwast – Gwybodaeth ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid**

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Bydd pob disgybl sydd wedi'i gofrestru ar hyn o bryd yn parhau i fod wedi'i gofrestru ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd, h.y. tan ddiwedd y tymor ym mis Gorffennaf 2025.
Peidiwch â chyflwyno cais os yw'ch plentyn/plant eisoes yn mynychu clwb brecwast neu os ydych chi eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus am le mewn clwb brecwast. Os oes gyda chi unrhyw amheuaeth, gofynnwch am gyngor gan yr ysgol gan fod gyda nhw wybodaeth fanwl am bob cais llwyddiannus.

**Os yw'ch plentyn eisoes wedi cofrestru i fynychu clwb brecwast, peidiwch â chyflwyno cais arall, mae'n bosibl y bydd hyn yn atal eraill rhag gwneud cais.**

Os yw'ch plentyn/plant yn ymuno â'r ysgol o fis Ionawr, neu os yw'n ddisgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd sydd bellach yn dymuno mynychu'r clwb brecwast, mae modd gwneud cais ar-lein drwy glicio yma: Clybiau brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd o Dydd Iau 19 Rhagfyr. Dim ond os oes angen brecwast am ddim ac iach ar eich plentyn/plant y dylech chi wneud cais, nid gofal plant yw'r ddarpariaeth yma. Nodwch, dydy'r Cyngor ddim yn darparu mynediad at ddarpariaeth gofal plant â thâl cyn y ddarpariaeth clwb brecwast am ddim yn ein hysgolion cynradd.

Os nad oes lle ar gael ar hyn o bryd, byddwn ni'n rhoi gwybod i chi, a bydd eich y plentyn/plant yn cael eu cynnwys ar restr aros ddigidol. Pan fydd lle ar gael, byddwch chi'n derbyn neges e-bost sy'n nodi bod y plentyn/plant bellach wedi cael ei symud i gofrestr y clwb brecwast a'i fod yn gallu mynychu'r clwb brecwast.

**Gaynor Davies**

***Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant***
Director of Education and Inclusion Services